Mayor's Foundation
Cronfa'r Maer
Vale of Glamorgan Council · Cyngor Bro Morgannwg

# Canllaw

## Beth yw Cronfa Grant Sefydliad y Maer?

Bydd Cronfa Grant Sefydliad y Maer yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol a sefydliadau dielw ar gyfer costau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n cefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer "cymunedau cryf â dyfodol disglair".  Yr arian penodol sydd ar gael i'w ddyrannu bob blwyddyn fel rhan o'r cynllun grant hwn yw £5,000.

Mae'r gronfa'n cynnig arian ychwanegol o rhwng £100 a £400 ** i wella gwaith sefydliadau gwirfoddol ac elusennol ym Mro Morgannwg.

## Sut mae gwneud cais?

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais Sefydliad y Maer, sydd ar gael o swyddfa'r Maer trwy ddilyn y ddolen ganlynol.

Ni ystyrir ffurflenni cais anghyflawn na rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol.

## Pwy gaiff wneud cais?

Mae'r gronfa ar agor i ymgeiswyr o Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol a sefydliadau dielw.

## Beth na roddir arian ar ei gyfer?

Dyma enghreifftiau o bethau na roddir arian ar eu cyfer fel rheol:
(Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent ac yswiriant);
- Projectau sy'n gymwys am gymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor e.e. cronfa digwyddiadau;
- Projectau nad ydynt yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor;
- Projectau na allant ddangos angen;
- Projectau sy'n mynd rhagddynt neu'n cychwyn cyn y gallwn gadarnhau ein grant;
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf (er enghraifft offer na rennir);
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, yn cynnwys grwpiau ymgyrch;
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol;
- Gwaith trwsio a chynnal arferol - e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair;
- Projectau nad ydynt yn mynd rhagddynt ym Mro Morgannwg;
- TAW y gellir ei hadfer.

** Cymeradwywyd gan Pwerau Argyfwng y Prif Weithredwr ar 20 Medi, 2022

## Faint y dylwn ysgrifennu yn fy nghais?

Gan mai grantiau bychain yw'r rhain, nid ydym yn gofyn am fanylion helaeth. Dylai faint o wybodaeth a rowch i ni yn y cais hwn gyfateb i faint o arian rydych chi'n gofyn amdano. E.e. Dim ond ychydig linellau ym mhob adran y mae eu hangen i ategu cais am grant bychan ar gyfer offer. Os nad ydych yn siŵr, holwch.

## A ddylwn gynnwys TAW yn fy nghais?

Ni allwch ond cynnwys TAW yn y cais os na allwch ei hawlio yn ôl gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am geisio cyngor ynghylch TAW. Yn anffodus, ni all y Cyngor gynnig y cyngor hwn.

## Am ba hyd y mae grant yn para?

Dylid gwario grant o fewn 6 mis o ddyddiad y llythyr dyfarnu.

## Sut y telir y grant?

Telir y grant o flaen llaw a dylai eich sefydliad gwblhau a dychwelyd tystysgrif cwblhau pan fo'r arian wedi ei wario.

## Beth yw'r amserlen ymgeisio?

Gwahoddir ceisiadau i **Gronfa Sefydliad y Maer** deirgwaith y flwyddyn ar 1 Medi, 1 Rhagfyr a 1 Ebrill. Hysbysebir y cyfnodau cais ar wefan Bro Morgannwg.

Bydd yn rhaid i'ch cais fod yn gyflawn ynghyd â'r holl atodiadau a chael ei gyflwyno fel copi caled neu dros e-bost erbyn hanner dydd ar y diwrnod cau. Cedwir ceisiadau a dderbynnir wedi'r dyddiad cau at y rownd ymgeisio nesaf. Gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgeisio. Cadwch mewn cysylltiad â ni a chofiwch fod croeso i chi ofyn cwestiynau.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, cewch lythyr ariannu a dogfennau cysylltiedig i'w harwyddo a dychwelyd. Os oes gennych gwestiynau ar hyn o bryd, mae croeso i chi ofyn i ni am gymorth.

## Pwy sy'n gwneud penderfyniadau a beth yw'r meini prawf asesu?

Caiff y cais ei archwilio gan y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Bro Morgannwg a chysylltir â chi ag unrhyw ymholiadau. Yna, caiff eich cais ei gyflwyno i banel gwerthuso grantiau i'w ystyried. Bydd y panel yn cynnwys:

- Maer y Cyngor
- Swyddog Cabinet
- Swyddog Cyllid

Gall y panel grantiau ddewis gosod amodau ar eich cynnig grant os yw'n llwyddiannus. Yna cewch wybod yn ysgrifenedig am benderfyniad y panel.

Bydd y panel yn asesu eich cais yn ôl y meini prawf canlynol:

**Meini Prawf Asesu**

**Caiff cynigion project Cronfa Grant Sefydliad y Maer eu sgorio gan ddefnyddio'r raddfa sgorio 0 - 10 i roi uchafswm sgôr o 30. Ni aiff cais yn ei flaen os yw ei sgôr yn is na'r lleiafswm trothwy ansawdd, sef 15.**

| | Maen Prawf Blaenoriaeth | Sgôr |
|---|---|---|
| **1** | Cyd-fynd yn strategol â:<br>• Blaenoriaethau Cyngor y Fro<br>• Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | 0 – 10 |
| **2** | Gwerth am arian a chanlyniadau | 0 – 10 |
| **3** | Ymrwymiad rhanddeiliaid a'u cyfraniad at siapio a gweithredu'r project a Gwerth Ychwanegol | 0 –10 |
| | **Cyfanswm** | **30** |

**Maen Prawf 1 – Cyd-fynd yn strategol**
**Sgôr o hyd at 10**

**Peidiwch â chael braw gan yr adran hon! Os nad ydych chi'n siŵr sut mae eich project yn cyd-fynd â'r adran hon, peidiwch â phoeni, gofynnwch i un o'r tîm Datblygu Economaidd ac fe gewch gyngor. Y syniad y tu cefn i ddangos y cysylltiadau hyn yw sicrhau bod y projectau a ariennir yn berthnasol i flaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.**

Cyfrannu at Flaenoriaethau Cyngor Bro Morgannwg

Mae'n rhaid i'r ceisiadau gyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol, sy'n cyfrannu at Ganlyniadau Lles y Cyngor.

**Canlyniad 1: Bro gynhwysol a diogel**
Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.
Cynnig cartrefi safonol a chymunedau diogel.

**Canlyniad 2: Bro amgylcheddol gyfrifol a llewyrchus**
Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd.

**Canlyniad 3: Bro uchelgeisiol a chanddi ddiwylliant fyw**
Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.
Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

**Canlyniad 4: Bro actif ac iach**
Annog a hyrwyddo bywyd actif ac iach.
Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw'n annibynnol.

**Dylai projectau allu dangos cysylltiad ag un neu ragor o'r amcanion uchod; ticiwch yr un sy'n berthnasol i chi.**

**<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>**

Gwella lles Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn y Ddeddf mae 7 nod lles:

- Cymru gyfrifol yng nghyd-destun y byd
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cydradd
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant llewyrchus lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae 5 dull gweithredu yn y Ddeddf:

- Integreiddio
- Cydweithio
- Atal
- Hirdymor
- Cynhwysiant

**Dylai projectau allu dangos cysylltiad ag un neu ragor o'r targedau lles uchod a ffyrdd o weithio. Ticiwch y rhai rydych chi'n credu sy'n berthnasol i chi. Nid ydyn ni'n chwilio am lawer o fanylion yn yr adran hon.**

**Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yma.**

**<u>Maen prawf 2 - Gwerth am arian a chanlyniadau</u>**
**<u>Sgôr hyd at 10</u>**

Mae'r maen prawf hwn yn egluro ei hun. Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n bwriadu ei wneud trwy eich project. Rhowch syniad i ni o'r hyn rydych chi'n gobeithio ei wneud a faint y bydd hynny'n ei gostio. Hyn a hyn o arian sydd gennym ni a bydd projectau a fydd yn gwneud mwy â'u grantiau yn sgorio'n uwch yn yr adran hon.

**<u>Maen prawf 3 - Ymrwymiad rhanddeiliaid wrth siapio a gweithredu'r project</u>**
**<u>Sgôr hyd at 10</u>**

Dylid datblygu projectau yn ymateb i wybodaeth leol fanwl a thystiolaeth gadarn o'r angen. Y cymunedau lleol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddeall eu hamgylchiadau lleol a phennu'r rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu.
Dylai ymgeiswyr egluro **pwy** yw eu rhanddeiliaid; **sut** y cawsant eu cynnwys wrth ddatblygu'r project a sut y byddant yn parhau i fod yn rhan o'i weithredu. Dylai ymgeiswyr egluro sut y bydd y project terfynol yn cynrychioli canlyniad ymrwymiad y gymuned.

Dylai ymgeiswyr egluro pa werth ychwanegol a ddaw o ganlyniad i'w project, y tu hwnt i'r gweithgareddau craidd y mae'n eu gwneud ar hyn o bryd. Ni allwn gynnal costau rhedeg craidd eich sefydliad gyda'r arian hwn.

## Deunydd Marchnata / Hyrwyddo

Mae eich cynnig grant yn amodol ar ddefnyddio logos y partneriaid ariannu ar gynnyrch marchnata / hyrwyddo cysylltiedig e.e. taflenni, gwefan, paneli dehongli. Mae canllaw penodol ynghylch y mater hwn y bydd yn rhaid i chi ei ddilyn e.e. maint y logos mewn perthynas â maint y ddogfen. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhown hyn i gyd i chi gyda'ch llythyr dyfarnu.

## Faint o ddyfynbrisiau y mae angen i mi eu cyflwyno?

Mae’r tabl tendro isod yn nodi’r weithdrefn y bydd angen i chi ei dilyn. Sicrhewch eich bod wedi cyflwyno’r wybodaeth briodol â’ch cais. Gallwn eich helpu â’r broses hon a’ch cynghori ynghylch sut mae llunio manylebau ar gyfer dyfynbrisiau a thendrau.

**Gwybodaeth Tendro**

| Amcan Werth | Camau Tendro Gofynnol |
|---|---|
| **£100 - £400 **** | **Un dyfynbris ysgrifenedig** gan un cyflenwr |

**Mae’n rhaid aros i'ch cais am gyllid grant gael ei gymeradwyo cyn cychwyn gwaith. Ni fydd arian grant ar gael ar gyfer gwaith a wneir cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.**

Mae’n rhaid i’r ymgeisydd gwblhau'r holl waith a gymeradwyir a chyflwyno tystiolaeth o dâl cyn y gall hawlio’r grant.

**PWYSIG**
Mae’n bwysig i chi ddarllen y nodiadau hyn a’r canllaw cam wrth gam i gwblhau’ch ffurflen gais; byddant o gymorth i chi i gwblhau eich cais yn gywir ac i'ch helpu i osgoi unrhyw oedi yn y prosesu.

Y Maer
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
**T:** 01446 709853
**E:** TheMayor@valeofglamorgan.gov.uk

** Cymeradwywyd gan Pwerau Argyfwng y Prif Weithredwr ar 20 Medi, 2022